Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (â rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg,

# Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais

21 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-4734-3248-2
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6

   Profiad y Claf ........ 6

   Cyflenwi Hanfodion Gofal ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........ 7

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 10

   Ansawdd yr Amgylchedd ........ 12

6. Y Camau Nesaf ........ 14

   Atodiad A ........ 15

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad â rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Cwmdulais, 8 Heol yr Orsaf, Creunant, Castell-nedd, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 21 Ionawr 2015.

Yn ystod yr arolygiad, roeddem yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well*: *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* [1].

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

---

[1] Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Creunant, Castell-nedd Port Talbot. Mae’r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.  Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys tri deintydd, therapydd deintyddol, pedair nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd, a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais yn bodloni'r safonau gofal a geir yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well:Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd y cleifion a oedd wedi cwblhau ein holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod staff yn gwrtais wrth gleifion ac yn eu trin â pharch. Roedd gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau roedd y practis yn eu cynnig o fewn hawdd cyrraedd cleifion.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai argymhellion ynglŷn â rhai agweddau ar y broses o gadw cofnodion deintyddol, ac wedi argymell y dylai'r practis gwblhau asesiad risg priodol mewn perthynas â gwastraff clinigol. Rydym hefyd wedi gofyn i'r practis sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Roedd gan y practis reolwr profiadol a oedd yn gweithio'n agos at y prif ddeintydd. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd y practis deintyddol i'w weld wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – yn fewnol ac yn allanol. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth. Rydym wedi argymell y dylai'r practis ymchwilio i'r posibilrwydd o wella mynediad i'r adeilad ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion a oedd wedi cwblhau ein holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.**

**Gwelsom fod staff yn gwrtais wrth gleifion ac yn eu trin â pharch. Roedd gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a oedd ar gael o fewn hawdd cyrraedd cleifion.**

Roedd tîm y practis yn gyfeillgar ac yn groesawgar, a gwelsom eu bod yn gwrtais ac yn foesgar wrth gleifion.

Gwnaethom wahodd cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad i gwblhau holiaduron AGIC. Dychwelwyd cyfanswm o naw holiadur. Dywedodd y cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gan y practis, eu bod wedi derbyn croeso mawr gan staff y practis, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

> *'Maen nhw i gyd yn helpus ac yn awyddus i ateb/esbonio pob cwestiwn/ymholiad.'*
>
> *'Maen nhw'n gefnogol iawn ac yn llawn cydymdeimlad.'*

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gwelsom fod cleifion yn gallu trefnu apwyntiad ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gall pobl fod yn hyderus, pe baent yn teimlo poen ddeintyddol, bod system ar waith i sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a wnaeth sylwadau yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn wedi'i gynnwys yn nhaflen wybodaeth y practis, ac wedi'i arddangos yn ffenest y practis.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Dywedodd staff fod proses ar waith er mwyn rhoi gwybod i gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai argymhellion ynglŷn â rhai agweddau ar y broses o gadw cofnodion deintyddol, ac wedi argymell y dylai'r practis gwblhau asesiad risg priodol mewn perthynas â gwastraff clinigol. Rydym hefyd wedi gofyn i'r practis sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.**

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennaeth orfodol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a phrofi, a hyfforddiant staff ar gael mewn ffeiliau, ac wedi'i diweddaru.

Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys ar gyfer argyfwng cleifion (llewyg) yn y practis. Roedd system ar waith i nodi cyffuriau sydd wedi darfod a rhoi rhai newydd yn eu lle. Gwelsom gofnodion mewn ffeiliau staff a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol, gan gynnwys sut i weinyddu dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd yr holl gyffuriau brys wedi'u storio mewn oergell, ac rydym wedi argymell y dylai'r practis gwirio a yw'r drefn hon yn unol â chanllawiau storio'r gwneuthurwr.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau addas er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.***

Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynhwysyddion o wahanol liwiau er mwyn dangos y dull cywir o gael gwared arno. Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel tra eu bod yn aros i rywun eu casglu. Oherwydd trefn y practis, roedd gwastraff mewn bagiau wedi'u selio yn cael ei gario trwy'r ystafell aros. Pe bai'r bagiau'n torri, gallai wastraff ollwng yn y man aros, gan beri perygl posibl i gleifion a staff. Felly, rydym wedi argymell y dylai'r practis cynnal asesiad risg priodol, a gweithredu unrhyw gamau sy'n cael eu nodi er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff a chleifion, pe bai gwastraff yn gollwng o'r bagiau'n anfwriadol.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis gynnal asesiad risg priodol mewn perthynas â chario gwastraff peryglus mewn bagiau wedi'u selio o fewn adeiladau'r practis, a gweithredu unrhyw gamau sy'n cael eu nodi er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff a chleifion.***

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offerynnau a ddefnyddir yn y practis, a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05).[2]

Roedd arsylwi ar y broses ddadheintio'n cadarnhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau. Gwelsom fod yr offerynnau yn cael eu bagio'n briodol, ac yn cael eu stampio â dyddiad y dadheintio, a'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio, cyn iddynt gael eu storio. Roedd cofnodion gorfodol wedi cael eu cynnal, ac roedd yr offer a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau i'w weld mewn cyflwr da. Er bod trefniadau addas ar waith, gallai'r practis ystyried defnyddio bath uwchsonig ac offer sterileiddio gwactod (Math B) ar gyfer y prosesau cyn-sterileiddio a sterileiddio er mwyn ymarfer arferion cydnabyddus.

Gwelsom fod archwiliadau rheoli heintiau ar hap wedi cael eu cynnal. Er bod y rhain wedi'u gwneud gan ddefnyddio dull archwilio cydnabyddus, gwnaethom ddweud wrth reolwr y practis am ddull archwilio wedi'i ddiweddaru, ac wedi'i ddylunio yn benodol i gyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae hyn yn caniatáu i dimau deintyddol i asesu eu harfer yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau sydd ynddo.

Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar diogelu defnydd sengl er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis. Gwelsom fod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o 12 cofnod deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion ar gyfer pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd cofnodion papur a chofnodion electronig yn cael eu defnyddio yn y practis. Gwelsom fod cofnodion y gwahanol ddeintyddion yn amrywio, ond, ar y cyfan, roedd cofnodion manwl wedi'u cadw, a oedd yn cynnwys pam roedd y claf yn mynychu'r practis ynghyd â'r gofal, y driniaeth a'r cyngor a roddwyd gan y deintydd.

Fodd bynnag, nid oedd y cyfiawnhad dros amlder apwyntiadau dilynol ar gyfer adolygiadau iechyd geneuol bob amser wedi'i gofnodi. Gwelsom nad oedd

[2]Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

hanesion meddygol cychwynnol cleifion yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd bob amser, ac nid oedd hanesion meddygol cleifion a oedd wedi'u diweddaru bob amser wedi'u llofnodi gan y claf cyn dechrau pob cwrs newydd o driniaeth. Byddai'r agweddau hyn ar gadw cofnodion yn dangos bod gofal a thriniaeth cleifion wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch a lles cleifion. Rydym felly wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â'r agweddau hyn ar gadw cofnodion.

***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau addas er mwyn:***

***Sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn dangos cyfiawnhad y deintydd dros amlder apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion.***

***a***

***Sicrhau bod hanesion meddygol cychwynnol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd a bod hanesion meddygol cleifion sydd wedi'u diweddaru yn cael eu llofnodi gan y claf.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis reolwr profiadol a oedd yn gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.**

Roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd hi'n gweithio'n agos gyda'r prif ddeintydd. Roedd tîm y practis i'w gweld yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, a chanddynt ddealltwriaeth dda o'u gwahanol rolau a chyfrifoldebau. Roeddem yn teimlo ar y cyfan bod y practis yn cael ei reoli'n dda.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Gwelsom nad oedd dyddiad ar bob polisi. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis a'r prif ddeintydd at hyn er mwyn i system addas gael ei chyflwyno i ddangos pan fydd polisïau wedi cael eu cytuno neu eu hadolygu.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Dywedodd staff wrthym hefyd fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob pedair neu chwe wythnos, ac roeddent yn trafod testunau sy'n ymwneud â'u gwaith.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom edrych ar bedair ffeil ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff a gweld bod staff yn cofnodi tystiolaeth o'r hyfforddiant maent wedi'i fynychu er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau perthnasol ac a oedd wedi diweddaru eu hyfforddiant.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd gan bob un ohonynt dystysgrif gofrestru gyfredol gan AGIC, ac roedd y rhain wedi'u harddangos yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Dywedodd y prif ddeintydd fod y practis yn cefnogi'r staff i gael y brechiadau yr oedd eu hangen er mwyn gweithio yn y practis. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod cofnodion gan bob aelod o staff a oedd yn cadarnhau eu bod wedi cael brechiadau Hepatitis B a brechiadau imiwneiddio. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd y camau priodol i amddiffyn staff a cleifion.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw. Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi'i archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol. Felly, gellid rhoi sicrwydd i staff a chleifion fod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio'n rheolaidd, ac yn cael ei gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ar waith er mwyn i gleifion leisio pryderon (cwynion). Roedd y weithdrefn yn bodloni'r trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a gwaith preifat fel ei gilydd.

Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryderon (cwynion) wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, dywedodd ychydig dros hanner o'r cleifion a oedd wedi cwblhau'r holiaduron nad oeddent yn ymwybodol o'r weithdrefn y dylid ei dilyn. Dylai'r practis ymchwilio i sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

Cyfeiriwyd hefyd at y weithdrefn gwyno yn nhaflen wybodaeth y practis. Roedd digon o'r rhain ar gael ar gyfer cleifion sy'n ymweld â'r practis; fodd bynnag, roedd y manylion cyswllt ar gyfer AGIC yn hen. Cytunodd rheolwr y practis i sicrhau bod y manylion cyswllt cywir yn nhaflen wybodaeth y practis.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd y practis deintyddol i'w weld wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – yn fewnol ac yn allanol. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.**

**Rydym wedi argymell y dylai'r practis ymchwilio i'r posibilrwydd o wella mynediad i'r adeilad ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.**

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau o adeilad wedi'i leoli ym mhentref Creunant, yng Nghwmdulais, Castell-nedd Port Talbot.

Nid oedd lleoedd parcio penodol ar gael ar safle'r practis, ond roedd rhywfaint o barcio ar gael ar y stryd y tu allan i'r practis, ac ar strydoedd eraill gerllaw. Roedd arwyddion clir at y practis, a oedd yn golygu ei fod yn hawdd ei gyrraedd o'r stryd. Roedd enwau a chymwysterau'r staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi eu harddangos yn glir, ynghyd â rhif cysylltu'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

Roedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd, gan nad oedd grisiau i'r practis, nac yn y mannau ar y llawr daear. Fodd bynnag, gwnaethom dderbyn sylw a oedd yn awgrymu y gellid gwella'r fynedfa er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Dylai'r practis ymchwilio i weld a fyddai hyn yn bosibl.

***Argymhelliad***

***Dylai'r practis ymchwilio i'r posibilrwydd o wella mynediad i'r adeilad er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn – a chymryd y camau gwella priodol yn ôl yr angen.***

Roedd gan y practis dai bach gwahanol ar gyfer staff a chleifion. Roedd y tŷ bach ar gyfer cleifion ar y llawr daear, roedd arwyddion clir, ac roedd yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd y ddau dŷ bach yn lân ac ynddynt gyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Roedd y dderbynfa a'r ystafell aros ar y llawr daear. Gwnaeth ein harsylwadau nodi bod maint yr ystafelloedd aros yn briodol o ystyried y nifer o ystafelloedd triniaeth a'r nifer o gleifion sy'n mynychu'r practis. Yn ystod taith o gwmpas y practis, gwelsom fod y man hwn yn lân ac yn daclus, a bod digon o olau, gwres ac awyr ffres. Roedd felly yn darparu man cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt aros.

Roedd amrywiaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd geneuol wedi'i arddangos ar bosteri ac ar sgrin daflunydd fawr. Roedd taflenni er mwyn i gleifion fynd â nhw a'u darllen. Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau roedd y practis yn eu cynnig wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa a'r mannau aros. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion sy'n dod i'r practis fynediad hawdd at amrywiaeth o wybodaeth er mwyn iddynt ofalu am eu hylendid geneuol personol.

Roedd pedair ystafell driniaeth – dwy ar y llawr daear a dwy ar lawr cyntaf yr adeilad. Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r rhain, ac roeddent yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion sy'n derbyn triniaeth.

Gwnaethom arsylwi bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – yn fewnol ac yn allanol. Roedd mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ar gyfer cleifion a staff, ac roedd labeli cynnal a chadw yn dangos bod y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio o fewn y 12 mis diwethaf.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â meysydd *Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* ac ansawdd yr amgylchedd. Mae’r manylion hyn i’w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol Cwmdulais

## Dyddiad yr Arolygiad: 21 Ionawr 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Dim | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 7 | Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau addas er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. | Bydd yr holl feddyginiaethau'n cael eu gwirio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, a thynnir sylw at y manylion storio ar y pecyn. | Donna Brown (Rheolwr Practis) | Ar unwaith |
| 8 | Dylai'r practis gynnal asesiad risg priodol mewn perthynas â chario gwastraff peryglus mewn bagiau wedi'u selio o fewn adeiladau’r practis, a gweithredu unrhyw gamau sy'n cael eu nodi er mwyn lleihau'r risg o niwed i staff a chleifion. | Mae asesiad risg bellach wedi'i roi ar waith ar gyfer cludo gwastraff clinigol yn y practis. | Donna Brown (Rheolwr Practis) | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau addas er mwyn:<br>Sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn dangos cyfiawnhad y deintydd dros amlder apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion. | I'w drafod yng nghyfarfod nesaf y deintyddion er mwyn creu templed addas trwy ddefnyddio Software of Excellence. | Lesley Hicks<br>(Prif Ddeintydd) | 1 mis |
| | Sicrhau bod hanesion meddygol cychwynnol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd a bod hanesion meddygol cleifion sydd wedi'u diweddaru yn cael eu llofnodi gan y cleifion. | Mae hanesion meddygol bellach yn cael eu hargraffu ar gyfer pob cwrs o driniaeth yn hytrach nag unwaith y flwyddyn. Mae'r hanes meddygol cychwynnol bellach yn cael ei lofnodi gan y deintydd sy'n rhoi'r driniaeth. | Lesley Hicks<br>(Prif Ddeintydd) | Ar unwaith |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Dim | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 12 | Dylai'r practis ymchwilio i'r posibilrwydd o wella mynediad i'r adeilad er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn – a chymryd y camau gwella priodol yn ôl yr angen. | Mae'r fynedfa flaen wedi cael ei mesur ac mae'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mewn gwirionedd, mae'r ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. | Keith Hotson | Ar unwaith |

**Cynrychiolydd y Practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (wedi'i brintio):** | **Mrs Kathy Williams.........................................................................** |
| **Teitl:** | **Prif Ddeintydd a Pherchen.............................................................** |
| **Llofnod:** | **[Cyflwynwyd yn electronig]..........................................................** |
| **Dyddiad:** | **23/02/2015...................................................................................** |